Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rhan 1 o Ymateb y Llywodraeth i: Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal (‘atchwip’)

## Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Chwefror 2017

# Rhan 1 o Ymateb y Llywodraeth i: Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal (‘atchwip’)

## Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cyflwynwyd i’r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2017

Cm 9422

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2017**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd y sawl biau'r hawlfraint berthnasol.

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk

ISBN Print 9781474141178
ISBN Gwe 9781474141185

ID 17021711 02/17

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi’i ailgylchu o leiaf.

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt 3

Cefndir 5

Crynodeb o ymatebion 6

Rhan 1 – Nodi'r materion a diffinio hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd 11

Rhan 2 – Lleihau nifer a chost mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd 16

Rhan 3 – Cyflwyno system tariff penodedig ar gyfer hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd 21

Rhan 4 – Codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol 24

Rhan 5 – Cyflwyno gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd 29

Rhan 6 – Rhoi argymhellion y Tasglu Twyll Yswiriant ar waith a 'Galw am Dystiolaeth' ar faterion cysylltiedig 31

Rhan 7 –Asesiad o'r Effeithiau 32

Casgliad a'r camau nesaf 33

Egwyddorion ymgynghori 35

Cydraddoldeb 36

Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr 37

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw rhan un o'r adroddiad ar ôl ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, 'Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddwl ('atchwip') – Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr'.

Bydd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi mewn dwy ran. Mae hon, y rhan gyntaf, yn ymdrin â'r rhaglen ddiwygio anafiadau atchwip sy'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Yn benodol, mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am yr ymatebion a gafwyd i rannau un i bump o'r ddogfen ymgynghori a sut y maent wedi dylanwadu ar y penderfyniadau polisi terfynol. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno:

- cefndir y rhaglen ddiwygio;
- crynodeb o'r ymatebion a gafwyd;
- dadansoddiad penodol o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn rhannu un i bump o'r ymgynghoriad;
- amserlenni Seneddol a gweithredu a'r camau nesaf.

Mae rhan dau o ymateb y Llywodraeth yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir yn y man. Bydd yn ymdrin â'r materion a amlinellwyd yn Rhannau 6 a 7 o'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â gweithredu argymhellion y Tasglu Twyll Yswiriant a'r 'galw am dystiolaeth'.

Mae rhagor o gopïau o'r ymateb hwn, y papur ymgynghori a'r asesiad o'r effeithiau sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar gael trwy gysylltu â:

**Scott Tubbritt**
**Whiplash Policy Reform Team**
**Ministry of Justice**
**Post Point 3.50, 3rd Floor**
**102 Petty France**
**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 020 3334 3157**

**E-bost: whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk**

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims/ Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill trwy gysylltu â:

**Scott Tubbritt**

**E-bost: whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk**

**Ffôn: 020 3334 3157**

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Mae rhestr o ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Atodiad A o'r ddogfen hon.

# Cefndir

1. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â niferoedd a chostau cynyddol uwch hawliadau am anafiadau atchwip. Cafodd diwygiadau blaenorol i leihau'r costau sy'n gysylltiedig â chyfreithia sifil eu cyflwyno ym mis Ebrill 2013 trwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2013. Cafodd mesurau pellach i fynd i'r afael â thwyll ac i bennu cost adroddiadau meddygol cychwynnol ar atchwip ac i wella annibyniaeth ac ansawdd tystiolaeth feddygol eu cyflwyno rhwng mis Hydref 2014 a Mehefin 2015.

2. Mae rhaglen diwygio atchwip y Llywodraeth yn adeiladu ar y diwygiadau cynharach hynny, a chafodd y papur ymgynghori a'r asesiad o effeithiau 'Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddwl ('atchwip') eu cyhoeddi ar 17 Tachwedd 2016. Roedd yr ymgynghoriad yn agored am saith wythnos a daeth i ben ar 6 Ionawr 2017.

3. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar becyn o fesurau wedi'u cynllunio i ddiwygio'r broses hawliadau am anafiadau personol ac i gymell pobl i beidio â gwneud mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a hawliadau twyllodrus am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ar y ffordd, sy'n cael ei hadnabod fel hawliadau am anafiadau atchwip. Mae nifer uchel cynyddol a chost yr hawliadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at bris premiymau yswiriant modur a delir gan yrwyr.

4. Cafodd dau o'r mesurau yn yr ymgynghoriad, sef dileu iawndal am boen, dioddef a cholli amwynder (PSLA) am fân anafiadau atchwip a chodi'r terfyn am hawliadau anafiadau personol i £5,000, eu cyhoeddi gyntaf ym mis Tachwedd 2015 fel rhan o Ddatganiad yr Hydref gan y Canghellor ar y pryd. Yn ychwanegol at y diwygiadau hyn, bu'r Llywodraeth yn ymgynghori ar:


   - opsiwn amgen i'r mesur i ddileu iawndal am PSLA am fân hawliadau am anafiadau atchwip, trwy gyflwyno swm iawndal penodedig am hawliadau o'r fath;
   - cyflwyno tariff o daliadau iawndal am PSLA i'r hawlwyr hynny ag anafiadau atchwip mwy difrifol; a
   - gwaharddiad ar setlo hawliadau am anafiadau atchwip heb dystiolaeth feddygol gan arbenigwr meddygol achredig.

5. Bydd gyrwyr yn elwa ar becyn diwygio'r Llywodraeth trwy leihau nifer a chost mân hawliadau, hawliadau wedi'i gorliwio a hawliadau twyllodrus. Mae cyfran helaeth o'r costau hyn yn cael eu trosglwyddo i yrwyr ar ffurf cynnydd mewn premiymau yswiriant modur. Roedd yr asesiad o'r effeithiau a oedd yn cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori yn amcangyfrif y byddai'r diwygiadau, ar ôl eu gweithredu, yn arwain o arbedion o tua £1 biliwn (neu gyfartaledd o £40 y polisi). Bydd cam olaf yr asesiad o'r effeithiau'n cael ei gyhoeddi cyn hir a bydd yn cynnwys amcangyfrif diwygiedig o'r arbedion disgwyliedig yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd yswirwyr yn trosglwyddo'r arbedion hyn i ddefnyddwyr a byddwn yn monitro effaith y diwygiadau hyn ar gost yswiriant modur.

# Crynodeb o ymatebion

## 1. Nifer yr ymatebion a gafwyd

6. Cafwyd cyfanswm o 625 o ymatebion i'r papur ymgynghori. O'r rhain, daeth 56% o'r ymatebion gan gyfreithwyr hawlwyr, daeth 7% gan grwpiau cynrychioliadol / ymgyrchu, 7% gan gwmnïau llogi ar gredyd; 6% gan unigolion preifat, a daeth 5% gan yswirwyr. Roedd y gweddill yn cynnwys cwmnïau rheoli hawliadau, cyfreithwyr diffynyddion, y farnwriaeth, arbenigwyr meddygol, undebau llafur a sefydliadau trafnidiaeth / teithio.




7. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn rhai unigryw; fodd bynnag canfuwyd rhai ymatebion dyblyg, gan gynnwys:

- 8 ymateb yr un fath gan un cwmni o gyfreithwyr hawliadau;
- 61 ymateb yr un fath gan grŵp o gwmnïau cysylltiedig o dan ymbarél strwythur busnes gwahanol;
- 5,995 o lythyrau ymgyrchu yr un fath gan seiclwyr a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr un mater o godi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain ac effaith hyn ar seiclwyr a cherddwyr; ac
- Un ymateb gan Access to Justice, a gefnogwyd gan 57 o gwmnïau cyfreithwyr hawlwyr. Cyflwynodd rai o'r cwmnïau hyn ymatebion unigol hefyd.

8. Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn nifer o gwestiynau am y pecyn diwygio. Daeth tua 60% o'r ymatebion i bob cwestiwn gan gyfreithwyr hawlwyr. Mae'r adran ganlynol yn rhoi cipolwg ar yr ymatebion a gafwyd gyda gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn adrannau un i chwech o'r ddogfen ymateb hon. Wrth wneud ei phenderfyniadau terfynol ar y pecyn diwygio, bu'r Llywodraeth yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan bob rhan o'r diwydiant.

## 2. Diffinio anafiadau i'r feinwe feddal o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffordd

9. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, mae eglurder ar union gwmpas y diwygiadau hyn yn hanfodol. Felly gofynnodd y Llywodraeth a fyddai'r diffiniad y cytunir arno ar draws y diwydiant o anaf i'r feinwe feddal,[1] a bennwyd ar gyfer MedCo ac a amlinellwyd yn y Protocol Cyn-Achos Damweiniau ar y Ffordd, yn ddiffiniad addas. Gofynnwyd hefyd a oedd angen gwarchod yn erbyn ymdrechion i fynd yn groes i'r rheolau a bwrw ymlaen â hawliadau a oedd y tu allan i'r diffiniad gydag adroddiadau meddygol costus diangen.

10. Nid oedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn cefnogi'r cynnig yn yr ymgynghoriad i ddefnyddio diffiniad 'MedCo' ar gyfer y diwygiadau hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn dod o'r sector hawlwyr. Roedd mwyafrif y rhai a oedd yn anghytuno â'r diffiniad yn dadlau ei fod wedi cael ei ddatblygu i ddiben penodol, a bod diffiniad 'MedCo' yn ehangach na hawliadau am anafiadau atchwip yn unig ac felly byddai'n amhriodol i'w ddefnyddio yn y diwygiadau hyn.

11. Roedd eraill, yswirwyr yn bennaf, a oedd yn anghytuno â'r diffiniad, yn dadlau y dylid ei ymestyn i gynnwys mân hawliadau boed yr hawliad seicolegol yn brif elfen neu elfen eilaidd o'r hawliad am anaf atchwip, fel yng nghwestiwn 2 yr ymgynghoriad. Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'r diffiniad, a oedd yn dod o'r sector yswiriant yn bennaf, yn dadlau ei fod wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ar gyfer MedCo ac y byddai'n gwneud synnwyr i barhau i ddefnyddio'r diffiniad i sicrhau cysondeb.

12. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn hefyd a ddylai'r diffiniad o hawliadau a effeithid gan y diwygiadau gael ei ymestyn i gynnwys hawliadau lle mae anaf seicolegol yn brif elfen yr hawliad. Roedd peth cefnogaeth i'r cynnig hwn o blith yswirwyr, ond roedd y mwyafrif, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn erbyn cynnwys hawliadau seicolegol fel prif anaf yn y diffiniad, gan ddadlau nad oedd hawliadau o'r fath yn fân hawliadau ac y byddai eu cynnwys yn y diwygiadau'n bychanu anafiadau seicolegol.

## 3. Diffinio 'mân' anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ar y ffordd

13. Gofynnodd y ddogfen ymgynghori gwestiynau am a hyd y mae'n rhaid i anaf bara cyn y gellid ei ystyried fel 'mân' anaf, gan roi opsiynau o anaf sy'n para hyd at ac yn cynnwys chwe mis a hyd at ac yn cynnwys naw mis. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol pe dewisir yr opsiwn i ddileu iawndal am fân hawliadau. Roedd mwyafrif yr ymatebion, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn erbyn diffinio 'mân' anafiadau fel 'chwe' mis, gan ddadlau bod chwe mis yn amser hir i ddioddef anaf. Roedd yr ymatebwyr hyn ar y cyfan yn teimlo mai'r cyfnod hwyaf y gellid ystyried bod anaf yn fân anaf oedd tri mis, ac y byddai hynny'n cyd-fynd â'r fersiwn ddiweddaraf o Ganllawiau'r Coleg Barnwrol, a gyhoeddwyd fis Medi 2015.

14. Ar y cyfan roedd cefnogaeth o blith yswirwyr i drin mân hawliadau fel rhai ar gyfer anaf a oedd yn para hyd at ac yn cynnwys chwe mis. Roedd cefnogaeth gyfyngedig, gan yswirwyr yn bennaf, i'r cynnig y dylai'r diffiniad gael ei ehangu i anafiadau a oedd yn para hyd at ac yn cynnwys naw mis.

---

[1] 'RTA PAP 16(A) soft tissue injury claim' means a claim brought by an occupant of a motor vehicle where the significant physical injury caused is a soft tissue injury and includes claims where there is a minor psychological injury secondary in significance to the physical injury'.

## 4. Dileu iawndal am boen, dioddef a cholli amwynder (PSLA) ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

15. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn erbyn y mesur hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol, ond nid llwyr, i'r mesur hwn o blith yswirwyr.

## 5. Cyflwyno taliadau iawndal penodedig ar gyfer anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

16. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod er bod swm yr iawndal a delir i hawlwyr am y mân hawliadau hyn yn rhy uchel ar hyn o bryd am lefel y boen a'r dioddef maent yn ei brofi, efallai bod achos i'r rhai hynny ag anafiadau gwirioneddol (er eu bod yn fân anafiadau) gael rhywfaint o iawndal am PSLA. Arweiniodd hyn at ddatblygu opsiwn amgen i gyflwyno iawndal penodedig hytrach na'i ddileu'n llwyr.

17. Cafwyd peth cefnogaeth i'r cynnig hwn o'r sector yswiriant, ond roedd mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn anghytuno â'r opsiwn hwn ac â'r swm dangosol a oedd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad. Roedd mwyafrif y rhai a oedd yn erbyn yr opsiwn hwn yn dadlau bod lefel yr iawndal a gynigid am PSLA yn rhy isel a'i bod yn bwysig cydnabod pa mor unigryw yw anafiadau pob unigolyn. Cafwyd cytundeb ar draws y sector pe byddai'r opsiwn hon yn cael ei mabwysiadu, byddai angen ei rannu'n fwy nag un taliad.

## 6. Y broses ar gyfer asesu pa mor hir fydd anafiadau'n para ar gyfer mân hawliadau

18. Ar ôl gweithredu'r diwygiadau hyn, bydd tystiolaeth feddygol o safon uchel yn bwysig i ategu hawliad yn bwysig i asesu sut yr ymdrinnir â'r cais. Gofynnodd yr ymgynghoriad am adborth ar ddau ddull y gellid eu mabwysiadu fel proses i gael tystiolaeth feddygol o'r fath. Gellir disgrifio'r rhain fel y dulliau 'prognosis' a 'diagnosis'. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y dull prognosis. Mynegwyd pryderon am y posibilrwydd y gallai'r dull diagnosis annog hawliadau hwyr a'r effaith y byddai dull o'r fath yn ei gael ar allu hawlwyr i hawlio am golli enillion neu adsefydlu angenrheidiol mewn modd amserol.

## 7. Cyflwyno tariff iawndaliadau penodedig ar gyfer hawliadau am anafiadau atchwip mwy difrifol

19. Er mwyn symleiddio'r broses i hawlwyr, fel rhan o'i hymgynghoriad, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i gyflwyno system iawndal newydd a fyddai'n seiliedig ar gyflwyno tariff penodedig ar gyfer hawlwyr ag anafiadau mwy difrifol. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar nifer o feysydd yn gysylltiedig â'r tariff hwn, gan gynnwys y lefelau iawndal arfaethedig ac a ddylai'r farnwriaeth gael disgresiwn i gynyddu'r swm a bennwyd gan y tariff hyd at 20% mewn amgylchiadau eithriadol.

20. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn cytuno â'r gwerthoedd dangosol ar gyfer y tariff a oedd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Roedd mwyafrif y rhai oedd yn anghytuno'n dadlau eu bod yn rhy isel ac, yn benodol, eu bod yn sylweddol is na'r ffigurau yn y fersiwn ddiweddaraf o Ganllawiau'r Coleg Barnwrol. Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebwyr, o'r sector yswiriant yn bennaf, yn dadlau y gallai'r symiau dangosol fod yn is fyth.

21. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr ychwaith yn credu y dylid cael disgresiwn barnwrol i gynyddu'r ffigurau hyd at 20% mewn amgylchiadau eithriadol. Roedd hawlwyr yn dadlau na ddylid cael tariff o gwbl ac y dylai'r farnwriaeth gael disgresiwn llwyr. Roedd yswirwyr ar y cyfan yn dadlau y byddai'r cynnig hwn yn gwneud y diwygiadau'n rhy gymhleth.

## 8. Codi'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer hawliadau anafiadau personol

22. Mae'r cwestiwn a ddylid codi'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol wedi cael ei ystyried gan y Llywodraeth hon a'i rhagflaenwyr ar sawl achlysur ers iddo gael ei bennu ar £1,000 yn 1991 (cafodd y terfyn ar gyfer yr holl hawliadau eraill ac eithrio anafiadau personol a diffyg atgyweirio tai ei godi i £10,000 yn 2012). Ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd y Llywodraeth glymblaid ei bod yn gohirio penderfyniad ar gynyddu'r terfyn er mwyn canolbwyntio ar ddiwygiadau i wella'r broses tystiolaeth feddygol. Gan fod y diwygiadau hynny i gyd wedi'u gweithredu erbyn hyn mae'n awr yn amser i ddychwelyd at fater y terfyn hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol.

23. Gofynnwyd nifer o gwestiynau'n gysylltiedig â chwmpas y cynnydd i'r terfyn hawliadau bychain, gan gynnwys a ddylid ei gyfyngu i hawliadau am ddamweiniau ar y ffordd ynteu a ddylai gynnwys pob anaf personol. Gofynnwyd hefyd a ddylai'r terfyn fod yn uwch na'r £5,000 a gynigiwyd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn erbyn codi'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer unrhyw fath o hawliadau am anafiadau personol. O'r rhai hynny oedd o blaid ei godi, roedd y mwyafrif yn credu y dylid ei gyfyngu i hawliadau am anafiadau atchwip yn unig, o leiaf yn y tymor byr, tra'r oedd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Roedd bron pob un yn erbyn codi'r terfyn hawliadau bychain yn uwch na £5,000 gyda llawer o gyfreithwyr hawlwyr yn dadlau y dylai'r cynnydd, pe bai cynnydd o gwbl, yn cael ei gyfyngu i gynnydd ar lefel chwyddiant.

## 9. Gwelliannau i helpu'r sawl sy'n cynrychioli eu hunain i ddefnyddio'r trac hawliadau bychain

24. Mae codi'r terfyn hawliadau bychain yn debygol o olygu y bydd rhai hawlwyr yn y dyfodol yn dewis cynrychioli eu hunain. Er mwyn galluogi hyn, gofynnodd yr ymgynghoriad am awgrymiadau ar ffyrdd i wella'r broses ac i helpu'r sawl sy'n cynrychioli eu hunain i ddefnyddio'r trac hawliadau bychain. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cynnig enghreifftiau defnyddiol o welliannau y gellid eu gwneud i helpu'r sawl sy'n cynrychioli eu hunain i ddefnyddio'r trac hawliadau bychain. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

25. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw hawliadau isel eu gwerth am anafiadau personol yn sgil damweiniau ar y ffordd mor gymhleth fel y bydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol bob amser ar hawlwyr. Nid yw hawlwyr, ac ni fyddant, yn cael eu hatal rhag cael cynrychiolaeth o'r fath os mai dyna yw eu dymuniad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod posibilrwydd y gwelir twf mewn cwmnïau rheoli hawliadau a McKenzie Friends sy'n derbyn tâl sy'n cynnig cymorth i'r sawl sy'n cynrychioli eu hunain. Roedd yr ymgynghoriad felly'n gofyn am sylwadau, ac awgrymiadau ar reoli hyn yn effeithiol. Cafwyd enghreifftiau ac awgrymiadau defnyddiol gan tua hanner yr ymatebwyr ar fesurau penodol y gellid eu cyflwyno o ran sut y mae cwmnïau rheoli hawliadau a McKenzie Friends sy'n derbyn tâl yn y sector anafiadau personol yn gweithredu. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

## 10. Gwahardd cynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau

26. Cafwyd cefnogaeth gref i’r cynnig i gyflwyno gwaharddiad ar setlo hawliadau am anafiadau atchwip heb dystiolaeth feddygol o’r sector anafiadau personol. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn erbyn y gwaharddiad ar gyfyngu cynigion cyn prawf meddygol i hawliadau damweiniau ar y ffyrdd. O’r rhain, roedd y mwyafrif, o’r sector hawlwyr yn bennaf, yn dadlau y dylai’r gwaharddiad gael ei weithredu ym mhob hawliad am anafiadau personol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn erbyn unrhyw eithriadau i’r gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol a rhoddodd nifer sylweddol o’r rhain enghreifftiau i ddangos sut y dylai’r gwaharddiad gael ei orfodi.

## 11. Cyfarfodydd rhanddeiliaid

27. Yn ychwanegol at yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad, gofynnwyd am farn partïon â diddordeb mewn cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliodd yr Arglwydd Keen QC gyfarfod o amgylch bwrdd â phrif grwpiau cynrychioliadol y sector anafiadau personol cyfan i drafod y materion a godwyd yn y ddogfen ymgynghori.

28. Cynhaliodd swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder nifer o gyfarfodydd â rhanddeiliaid o’r sector hawlwyr a diffynyddion, yn ogystal â chwmnïau llogi ar gredyd, mudiadau traws sector a rheolyddion. Cafodd y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfodydd hyn eu hystyried wrth wneud y penderfyniadau polisi terfynol a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

# Rhan 1 – Nodi'r materion a diffinio hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

29. Mae'r Llywodraeth hon, fel ei rhagflaenydd, wedi ymrwymo i fynd i'r afael â niferoedd uchel a chost gynyddol hawliadau isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ffordd, y mae eu mwyafrif yn hawliadau am anafiadau atchwip. Er bod amrywiaeth o ddiwygiadau wedi'u rhoi ar waith ni fu newid yn nifer yr hawliadau am anafiadau personol yn sgil damweiniau ar y ffordd yn y DU sy'n cael eu cofrestru ag Uned Adfer Iawndal (CRU) yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae dros 50% yn uwch nag ydoedd 10 mlynedd yn ôl (tua 460,000 o hawliadau wedi'u cofrestru yn 2005/06 o'i gymharu â thua 770,000 wedi'u cofrestru yn 2015/16).

30. Mae llawer o ymatebwyr o'r sector cyfreithwyr hawlwyr wedi dweud eu bod o'r farn bod nifer yr hawliadau am anafiadau atchwip a gofrestrir â'r CRU yn gostwng. Fodd bynnag, wrth astudio ystadegau'r CRU gwelir nad yw hynny'n wir ac efallai mai gwahaniaethau yn y ffordd mae hawliadau'n cael eu labelu sydd wrth wraidd y dybiaeth hon.

31. Pan fydd hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal sydd wedi'u labelu fel anafiadau 'gwddf' a 'cefn' yn cael eu hystyried gyda'i gilydd gyda rhai sydd wedi'u labelu fel anafiadau 'atchwip' mae'r ffigur yn cynyddu'n sylweddol. Mae nifer yr hawliadau o'r fath wedi bod yn debyg yn ystod y tair blynedd diwethaf gydag oddeutu 680,000 o hawliadau, sy'n cyfrif am tua 90% o'r holl hawliadau am anafiadau personol a wneir yn sgil damweiniau ar y ffordd.

32. Bu datblygiadau sylweddol hefyd mewn diogelwch cerbydau'n ddiweddar, gyda nifer cynyddol o gerbydau newydd yn cynnwys cyfarpar sedd a phen integredig. Mae ymchwil a wnaethpwyd gan Thatcham[2] yn dangos bod gan, yn 2006, 19% o gerbydau newydd seddi gyda sgôr diogelwch 'da', ond erbyn 2012, roedd gan 88% o gerbydau newydd sgôr 'da'. O gofio bod seddi o'r fath wedi cael eu dylunio'n benodol i leihau anafiadau yn sgil damweiniau ar y ffordd ar gyflymder isel, byddai hyn yn awgrymu y dylai nifer yr anafiadau atchwip fod yn gostwng, fel sydd wedi digwydd mewn awdurdodaethau eraill lle gwelwyd yr un gwelliannau mewn diogelwch.

33. Ar hyn o bryd mae cymhellion ariannol sylweddol ar gael i halwyr i ddwyn achosion o ganlyniad i anafiadau cymharol ddibwys, neu i orliwio difrifoldeb eu hanaf, ac mae angen ymyriad o gyfeiriad y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r broblem hon. Bydd y rhaglen ddiwygio sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon yn adeiladu ar ddiwygiadau Llywodraethau blaenorol yn y maes hwn i roi sylw i fater nifer a chost yr hawliadau hyn. Maent wedi'u targedu'n benodol at hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau ar y ffordd, lle mae bellach yn dderbyniol i wneud hawliadau am anafiadau lefel isel iawn.

---

[2] Mae Thatcham Research yn ganolfan ymchwil ddielw sy'n cael ei hariannu gan yswiriant, sy'n profi diogelwch cerbydau newydd, ac sydd wedi bod yn aelod o Raglen Asesu Ceir Newydd Ewrop (Euro NCAP) ers 2004.

34. Mae lefel yr iawndal a'r costau a delir o ganlyniad i nifer yr hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn golygu cost uwch i fodurwyr trwy gynnydd ym mhremiwm eu hyswiriant modur. Gan fod yswiriant modur yn orfodol, mae hyn yn effeithio ar bob modurwr yng Nghymru a Lloegr. Mae'n briodol felly bod y Llywodraeth yn cymryd camau pendant i reoli costau ac i sicrhau bod defnyddwyr yn elwa ar hynny.

## Diffiniad o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ffordd

35. Mae'n bwysig bod yn eglur pa grŵp o hawliadau a fydd yn cael ei effeithio gan y mesurau hyn. Roedd y Llywodraeth yn awyddus i glywed barn partïon â diddordeb ar y cynnig i ddefnyddio'r diffiniad 'MedCo' y mae'r diwydiant yn cytuno arno[3] fel y man cychwyn i ddatblygu diffiniad effeithiol o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ffordd. Yn 2014, bu'r Llywodraeth yn cydweithio'n agos â grŵp o randdeiliaid arbenigol o'r sector anafiadau personol i ddatblygu'r diffiniad hwn i'w gynnwys yn y Protocol Cyn-Achos ar gyfer Hawliadau Isel eu Gwerth am Anafiadau Personol yn sgil Damweiniau ar y Ffyrdd[4] (RTA PAP). Roedd y diffiniad wedi'i lunio'n benodol i ganfod yr anafiadau i'r feinwe feddal isel eu gwerth yn sgil damwain ffordd a oedd angen adroddiad meddygol o Borth TG MedCo.

36. Bu'r diffiniad hwn yn effeithiol i ganfod hawliadau perthnasol i ddibenion MedCo ac felly cynigiodd y Llywodraeth ddefnyddio'r fframwaith a geid ynddo fel y man cychwyn ar gyfer y diwygiadau hyn. Roedd yn ymddangos bod defnyddio'r diffiniad hwn yn ddull synhwyrol a phragmatig, a fyddai'n sicrhau cysondeb gyda diwygiadau eraill. Fodd bynnag, roedd yn rhaid ystyried a fyddai diffiniad o'r fath a gymerwyd o brotocol cyn-achos yn addas hefyd i'w ddefnyddio mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**Cwestiwn 1: A ddylid defnyddio'r diffiniad ym mharagraff 17 i ddynodi'r hawliadau yr effeithir arnynt gan y newidiadau i lefel yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder mewn mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a chyflwyno tariff penodedig o iawndaliadau cymesur ar gyfer pob math arall o hawliad?**
**A fyddech cystal â rhoi eich rhesymau, ac unrhyw ddiffiniad gwahanol y dylid ei ystyried.**

37. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 515 o ymatebwyr. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn anghytuno â'r diffiniad 'MedCo' a gynigid. Roedd eu hanghytundeb yn deillio'n bennaf o ganfyddiad bod y diffiniad naill ai'n rhy amwys neu'n rhy gyffredinol i fod yn effeithiol. Nododd ymatebwyr fod teitl yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar hawliadau am anafiadau atchwip, gan gydnabod bod anafiadau o'r fath yn ymwneud yn bennaf â niwed i'r gwddf a rhan uchaf y torso. Awgrymwyd ganddynt y gallai'r diffiniad 'MedCo' o bosibl gynnwys unrhyw fath o anaf i'r feinwe feddal, fel difrod i ewynnau neu dendonau, neu dorri'r croen mewn rhannau eraill o'r corff.

---

3 'RTA PAP 16(A) soft tissue injury claim' means a claim brought by an occupant of a motor vehicle where the significant physical injury caused is a soft tissue injury and includes claims where there is a minor psychological injury secondary in significance to the physical injury'.

4 https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/pre-action-protocol-for-low-value-personal-injury-claims-in-road-traffic-accidents-31-july-2013#1.1

38. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn rhybuddio y gallai diffiniad o'r fath a allai fod mor gyffredinol arwain at is-gyfreithia. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod is-gyfreithia o'r fath wedi'i ragweld yn achos MedCo pan gyhoeddwyd y diffiniad gwreiddiol, ond ni wireddwyd yr ofnau hynny.

39. Nododd rai ymatebwyr fod anafiadau atchwip yn gallu bod yn fwy poenus na rhai anafiadau lle mae asgwrn yn cael ei dorri, ac y gall, er enghraifft, arwain at fwy o golli amwynderau mewn rhai amgylchiadau. Dywedodd eraill gan fod y diffiniad 'MedCo' yn cynnwys rhywun sydd mewn cerbyd modur yn unig, byddai hyn yn eu gadael â llai o hawliau o'u cymharu â cherddwyr, beicwyr modur neu seiclwyr a fyddai'n dioddef anafiadau tebyg mewn damweiniau ar y ffyrdd.

40. Roedd rhai ymatebwyr, o'r sector yswiriant yn bennaf, yn cefnogi'r syniad o ddefnyddio diffiniad 'MedCo'. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn cefnogi'r cynnig gan fod y diffiniad wedi bod yn effeithiol yn y defnydd a wneir ohono gan MedCo, mae'n cael ei ddefnyddio'n eang yn y diwydiant ac mae'n ddealladwy, a byddai diffiniad cyson yn gwneud synnwyr. Dywedodd rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r diffiniad i anafiadau i'r feinwe feddal y byddai angen diffiniad mwy penodol os byddai'r pwyslais ar hawliadau am anafiadau atchwip yn unig.

## Estyn y diffiniad i gynnwys hawliadau seicolegol fel prif anaf

41. Yn ogystal â gofyn i ymatebwyr am addasrwydd diffiniad 'MedCo', gofynnwyd cwestiwn arall ar ei gwmpas o ran hawliadau ag elfen seicolegol iddynt. Mae diffiniad 'MedCo' yn cynnwys hawliadau am fân anafiadau seicolegol os yw arwyddocâd yr anaf hwnnw'n eilaidd i'r anaf corfforol a ddioddefwyd, ond nid yw'n cynnwys anaf seicolegol lle tybir mai'r anaf hwnnw yw'r prif anaf.

42. Dywedodd rhai ymatebwyr fod nifer yr hawliadau o'r fath wedi bod yn codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn monitro nifer yr hawliadau sy'n cynnwys elfen 'seicolegol': rhwng 2012 a 2015, mae data gan y Cynghorydd Canlyniadau Hawliadau yn awgrymu bod nifer yr hawliadau lle'r oedd anafiadau seicolegol wedi'u cynnwys fel anaf eilaidd wedi cynyddu tua 5%. Mae tystiolaeth anecdotaidd bellach gan y sector yswiriant wedi dangos nad oes llawer o hawliadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd lle mae'r anaf seicolegol yn cael ei weld fel y brif elfen. Mae hyn, fodd bynnag, wedi cael ei weld fel maes lle gallwn weld hawliadau yn cael eu chwyddo / symud i gategori yn y dyfodol ar ôl gweithredu'r diwygiadau newydd, felly gofynnodd yr ymgynghoriad y cwestiwn canlynol i ymatebwyr.

**Cwestiwn 2: A ddylai'r diffiniad ym mharagraff 17 gael ei estyn i gynnwys hawliadau am drawma seicolegol lle mai'r brif elfen mewn mân hawliad am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd fydd elfen seicolegol?**

**A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth i gefnogi'ch ateb, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, sut gellid diwygio'r diffiniad hwn i grisialu'r dosbarthiad hwn o hawliad mewn ffordd effeithiol.**

43. Atebodd 512 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif, cyfreithwyr hawlwyr yn bennaf, yn gwrthwynebu estyn y diffiniad 'MedCo'. Roedd nifer fach, yswirwyr yn bennaf, yn cefnogi estyn y diffiniad. Wrth roi rhesymau pan na ddylid estyn y diffiniad, nodwyd cymhlethdod cynyddol anafiadau seicolegol o'u cymharu ag anafiadau

corfforol, o ran adnabod anafiadau o'r fath a sut maent yn cael eu trin. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd fod yr ystod eang o anafiadau seicolegol posibl yn golygu bod eu gosod mewn un categori'n gallu bod yn broblemus.

44. Roedd peth anghytundeb o ran cynnwys "mân anaf seicolegol" fel prif anaf yn benodol, gan fod anafiadau o'r fath yn wahanol yn ansoddol a gallant fod yr un mor niweidiol i ddioddefwyr ag anafiadau atchwip. Awgrymwyd hefyd fod y nifer fach o anafiadau traffig ar y ffyrdd lle mae'r prif anaf yn un seicolegol yn golygu bod hwn yn faes y mae llai o angen ei ddiwygio nag anafiadau i'r feinwe feddal.

45. Nododd y rhai hynny a oedd yn cytuno ag estyn y diffiniad, os nad oedd y diffiniad yn cwmpasu hawliadau am fân anafiadau seicolegol, y gallai hawlwyr gael eu cymell i orliwio eu niwed seicolegol neu hyd yr anaf – hyd yn oed os oedd yr anaf corfforol yn fwy difrifol – er mwyn osgoi dod o fewn y diffiniad., Gallai yn y diwedd olygu mai hawliadau am anafiadau seicolegol fyddai'r "atchwip newydd". Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod 13eg argraffiad o Ganllawiau'r Coleg Barnwrol yn datgan na ddylai rhai â hawliadau am fân anafiadau seicolegol, e.e. rhai sy'n ymwneud â 'phryderon teithio' heb ddim anaf arall sy'n para llai na thri mis, gael iawndal.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *ar ôl ystyried y materion a godwyd yn ymatebion y rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y bydd y diwygiadau hyn yn cynnwys hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau ar y ffyrdd a hawliadau am fân anafiadau seicolegol.*

*Bydd diffiniad yn cael ei ddatblygu i leihau'r cyfle i hawliadau a effeithir gael eu symud i gategorïau eraill o hawliadau. Mae'r Llywodraeth yn derbyn na ddylai'r diffiniad gynnwys salwch seicolegol mwy difrifol, er enghraifft, iselder ac anhwylder straen wedi trawma, lle mae safonau rhyngwladol yn cael eu defnyddio i wneud diagnosis. Mae'r Llywodraeth felly'n cynnig cyfyngu cwmpas y mesur hwn i fân anafiadau seicolegol, fel 'pryder teithio' a 'sioc'.*

## Diffiniad o 'fân' hawliadau

46. Mae gwerth hawl yn cael ei bennu i raddau helaeth (ond nid yn gyfan gwbl) gan y diagnosis cyntaf a'r prognosis tebygol ar ba mor hir mae'r hawlydd yn debygol o gael ei effeithio gan y symptomau sy'n gysylltiedig â'u damwain. Felly yn ogystal â diffinio cwmpas yr anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a gaiff eu heffeithio gan ddiwygiadau'r Llywodraeth, roedd yn bwysig hefyd penderfynu beth a olygir wrth 'mân', o gofio mai un o gynigion y Llywodraeth oedd dileu iawndal am yn achos mân hawliadau.

47. Wrth ystyried y mater hwn, bu'r Llywodraeth yn edrych ar ddau opsiwn lle gofynnwyd am sylwadau gan randdeiliaid, Roedd y rhain yn ymwneud ag anafiadau a oedd yn para hyd at ac yn cynnwys:

i. chwe mis; neu

ii. naw mis.

48. Dywedodd y Llywodraeth yn ei dogfen ymgynghori mai'r opsiwn a ffefrid ar gyfer diffiniad o 'fân' hawliad oedd cyfnod prognosis o hyd at ac yn cynnwys naw mis a gofynnodd ddau gwestiwn i'r ymatebwyr.

**Cwestiwn 3: Mae'r llywodraeth yn cyflwyno dau opsiwn i leihau neu ddileu swm yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder mewn mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. A ddylid diffinio cwmpas mân anafiadau fel cyfnod o chwe mis neu lai?**

**Esboniwch eich rhesymau, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer diffinio'r cwmpas.**
**Cwestiwn 4: Fel arall, a ddylai'r llywodraeth ystyried rhoi'r diwygiadau hyn ar waith ar gyfer hawliadau am gyfnodau o naw mis neu lai?**

**Esboniwch eich rhesymau, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer diffinio'r cwmpas.**

49. Cafwyd 518 o ymatebion i gwestiwn 3, a 508 o ymatebion i gwestiwn 4. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd, o'r sector cyfreithwyr hawlwyr yn bennaf, yn amharod i gefnogi'r naill opsiwn na'r llall. Roedd nifer yn teimlo bod chwe mis yn gyfnod rhy hir ar gyfer diffinio mân anaf. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn dadlau bod naw mis hefyd yn rhy hir, er bod nifer fach o ymatebwyr yn teimlo y gellid diffinio 'mân' fel o leiaf naw mis.

50. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â dileu iawndal yn dod o'r sector hawlwyr yn bennaf. Roeddent yn dueddol o ddadlau na ellir categoreiddio anafiadau i'r feinwe feddal yn rhwydd fel mân anafiadau neu anafiadau difrifol, gan ddweud bod unigolion yn gallu profi lefelau gwahanol o boen a dioddef o ganlyniad i'r anafiadau hyn. Roedd nifer hefyd yn dadlau na ddylai pa mor hir mae anaf yn para ar ei ben ei hun fod yn unig ystyriaeth gan fod ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys a oedd angen triniaeth neu amser i ffwrdd o'r gwaith ar yr hawlydd.

51. Cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ond a oedd yn dadlau bod chwe mis yn gyfnod rhy hir a nodwyd mai'r torbwynt presennol ar gyfer mân anaf, a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn 13eg argraffiad o Ganllawiau'r Coleg Barnwrol, yw tri mis. Awgrymodd sawl ymatebwr byddai tri mis yn gyfnod rhesymol ar gyfer 'mân' anaf, ond roedd rhai hefyd o'r farn y gallai gosod trothwyon olygu y byddai rhai hawlwyr yn gorliwio hyd ei hanaf er mwyn dod o fewn y cyfnod uwch a thrwy hynny gael mwy o iawndal.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *O ystyried penderfyniad y Llywodraeth i ymestyn y tariff i gynnwys pob hawliad gydag anaf sy'n para 0-24 mis, nid oes bellach angen i bennu diffiniad o'r hyn a ystyrir fel 'mân' hawliad, Bydd y tariff yn rhoi dau fand gyda chyfnod hyd at ac yn cynnwys chwe mis. Rhoddir rhagor o fanylion am y tariff isod.*

## Rhan 2 – Lleihau nifer a chost mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

52. Roedd y Llywodraeth yn ymgynghori ar ddau opsiwn, sef:

    **Opsiwn 1: Dileu'r iawndal am PSLA ar gyfer pob mân hawliad am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd –** byddai'r opsiwn hon yn dileu iawndal mewn ceisiadau atchwip lefel isel, er y byddai pob hawlydd yn cadw'r hawl i hawlio am golledion ariannol fel costau adsefydlu a cholli enillon; ac

    **Opsiwn 2: Cyflwyno swm iawndal penodedig ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd –** roedd y Llywodraeth yn cydnabod er bod maint yr iawndal a delir i hawlwyr am hawliadau lefel isel yn parhau'n rhy uchel, efallai bod achos i gredu y dylai rhai ag anafiadau gwirioneddol (er eu bod yn fân anafiadau) gael peth iawndal am PSLA.

53. Byddai'r ddau opsiwn yn rheoli costau trwy roi mwy o sicrwydd i hawlwyr a diffynyddion fel ei gilydd o ran gwerth yr hawliad. Byddai opsiwn dau hefyd yn galluogi defnyddio'r trac hawliadau bychain os byddai hawlwyr yn dewis bwrw ymlaen â'u hawliad eu hunain, trwy sicrhau bod hawlwyr yn ymwybodol ymlaen llaw o lefel briodol yr iawndal a fyddai'n daladwy iddynt.

| |
|---|
| **Cwestiwn 5: A fyddech cystal â nodi eich barn ar b'un a ddylid dileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder o fân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn?**<br><br>**Esboniwch eich rhesymau.** |

54. Cafwyd 523 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn anghytuno y dylid dileu iawndal am PSLA o fân hawliadau.

55. Roedd ymatebion negyddol yn dueddol o ganolbwyntio ar y ffaith y byddai'r diwygiadau hyn yn golygu newid mawr i gyfraith camwedd, gan fod y system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd yn ceisio gwneud iawn i'r sawl sydd wedi dioddef anafiadau o ganlyniad i esgeulustod rhywun arall, ac roeddent yn dadlau na ddylai achosion o anafiadau i'r feinwe feddal a achoswyd gan draffig ffordd gael eu trin yn wahanol i hawliadau eraill. Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd bod gormod o risg y byddai hawlwyr gwirioneddol yn colli iawndal y mae ganddynt hawl iddo ar hyn o bryd am eu poen, dioddef a cholli amwynder.

56. Roedd nifer fach o ymatebwyr, cwmnïau yswiriant yn bennaf, yn cefnogi dileu iawndal am hawliadau am fân anafiadau atchwip. Roeddent yn dadlau bod angen dileu iawndal er mwyn cael gwared ar y rhan fwyaf o'r hawliadau am anafiadau atchwip o'r system a lleihau premiymau yswiriant. Dywedodd nifer o'r rhai a oedd yn cefnogi dileu iawndal y byddent hefyd yn fodlon â chyflwyno tariff penodedig.

**Cwestiwn 6: A fyddech cystal â rhoi eich barn ar b'un a ddylid cyflwyno swm penodedig i gwmpasu mân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

57. Atebodd 516 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn anghytuno â chyflwyno tariff penodedig. Roedd yr ymatebwyr hyn ar y cyfan yn honni bod pob anaf yn wahanol a bod y boen a'r dioddef a achosir gan anafiadau sy'n para am chwe mis neu lai yn gallu amrywio'n fawr. Mae hyn, meddent, yn ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl pennu lefel o iawndal sy'n deg i bob hawlydd ac mae'n creu risg o dalu gormod a rhy ychydig o iawndal. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn dadlau bod y system bresennol, sy'n seiliedig ar setliad wedi'i negodi sy'n defnyddio Canllawiau'r Coleg Barnwrol, yn effeithiol ac y dylai barhau.

58. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r sector yswiriant yn gwrthwynebu tariff o'r fath gan eu bod o blaid gwaharddiad llwyr ar iawndal, am resymau a amlinellir yn y crynodeb o ymatebion i gwestiwn 5 uchod. Roedd awgrym y gallai cyflwyno tariff penodedig am gyfnod o 0 i 6 mis gymell rhai sydd wedi dioddef anaf am ychydig ddyddiau'n unig i wneud hawliad, a dylid cymryd camau pellach i fynd i'r afael â hyn.

59. Roedd nifer fach o ymatebwyr, yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl o'r sector yswiriant, yn cytuno â chyflwyno tariff. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn teimlo ei fod yn cynnig cyfaddawd priodol rhwng y system bresennol a dileu iawndal ar gyfer anafiadau, gan y byddai'n cael gwared ar y cymhelliad i wneud hawliadau twyllodrus heb gosbi'n ormodol y rhai hynny ag anafiadau gwirioneddol. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai tariff penodedig yn symleiddio'r broses, yn cynyddu tryloywder ac yn cynnig mwy o sicrwydd na'r system bresennol.

**Cwestiwn 7: A fyddech cystal â rhoi eich barn ar gynigion y llywodraeth i bennu swm yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder ar gyfer mân hawliadau ar £400 ac ar £425 os yw'r hawliad yn cynnwys elfen seicolegol.**

**Esboniwch eich rhesymau.**

60. Cafwyd 516 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebion a gafwyd, gan y sector hawlwyr yn bennaf, yn gwrthwynebu pennu unrhyw dariff penodedig o gwbl, am y rhesymau a ddisgrifir yn y crynodeb o ymatebion i gwestiwn 6.

61. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys tablau sy'n rhoi ffigurau dangosol ar gyfer iawndal o dan y tariff newydd. Roedd y ffigurau hyn yn adlewyrchu amcanion polisi'r Llywodraeth i leihau costau ac i roi sicrwydd o ran gwerth yr hawliad. Roedd nifer o ymatebwyr, eto o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn teimlo bod y ffigurau dangosol ar gyfer iawndal a roddwyd yn rhy isel. Dywedodd yr ymatebwyr hyn fod y ffigurau a roddwyd yn llawer is na'r iawndal a awgrymwyd ar gyfer mân anafiadau yng

Nghanllawiau'r Coleg Barnwrol.[5] Roedd yr ymgynghoriad yn rhoi dau ffigur. Roedd un ar gyfer hawliadau os mai'r elfen atchwip oedd yr unig anaf yr oedd wedi'i gynnwys yn yr hawliad, ac roedd yr ail yn cynnwys elfen ychwanegol a oedd yn cynnwys mân anafiadau seicolegol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr o'r sector hawlwyr fod y swm a gynigiwyd yn rhy isel ar gyfer anaf seicolegol eilaidd.

62. Roedd nifer fach o ymatebwyr, o'r sector yswiriant, yn credu bod y ffigurau a gynigiwyd yn rhy uchel, gan ddadlau y byddai'r ffigurau a gynigiwyd yn dal i ganiatáu i gynrychiolwyr hawlwyr i gynhyrchu elw sylweddol ar nifer fawr o hawliadau, a fyddai'n golygu na fyddai'r diwygiadau'n cael dim neu fawr ddim effaith ar nifer yr hawliadau. Roedd nifer fach yn teimlo bod y ffigurau'n briodol ar gyfer y mân anafiadau hyn.

63. Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â chyfradd ar wahân ar gyfer hawliadau ag elfen seicolegol, gan ddadlau y byddai'n creu 'math newydd' o hawliad ac yn cymell cynnwys elfen seicolegol mewn hawliadau.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Ar ôl ystyried y dadleuon a fynegwyd gan yr ymatebwyr mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â mabwysiadu'r opsiwn i ddileu PSLA yn achos mân hawliadau ac mae'n hytrach yn bwriadu mabwysiadu tariff ar gyfer hawliadau am anafiadau sy'n para rhwng 0 a 24 mis. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai mabwysiadu'r opsiwn hon yn cyflawni amcanion y Llywodraeth fel y nodwyd uchod ac yn dal i ganiatáu i hawlwyr gwirioneddol hawlio lefel fwy cymesur o iawndal am boen, dioddef a cholli amwynder am yr hawliadau hyn.*

## Y broses ar gyfer asesu pa mor hir fydd anaf yn para

64. Ers 2013, mae'r Llywodraeth wedi cydweithio'n agos â phartïon â diddordeb i hybu annibyniaeth ac ansawdd adroddiadau meddygol i ategu hawliadau am anafiadau atchwip. Arweiniodd y gwaith hwn at y system 'MedCo' sy'n eiddo i'r diwydiant ac sy'n cael ei rhedeg ganddo, ac sy'n gyfrifol am weithredu polisi'r Llywodraeth yn hyn o beth, gan gynnwys rhedeg cynllun achredu ar gyfer pob arbenigwr meddygol sy'n dymuno paratoi adroddiadau meddygol o'r fath.

65. Buom yn ymgynghori ar ddau ddull a fyddai'n galluogi bwrw ymlaen â'r broses o gael tystiolaeth feddygol. Gofynnwyd a ddylai'r broses ddefnyddio dull prognosis, h.y. lle mae pa mor hir fydd yr anaf yn para'n seiliedig ar gyfnod prognosis yn ôl barn arbenigwr meddygol achredig, ynteu dull diagnosis, lle byddai'n rhaid i'r hawlydd aros chwe mis er mwyn i adroddiad meddygol gael ei gwblhau i benderfynu a oedd y symptomau'n parhau. Os byddai'r ail ddull yn cael ei fabwysiadu, dim ond cost adroddiad a gafwyd ar yr adeg hon y gellid ei adennill.

[5] Dywed 13eg Argraffiad Canllawiau'r Coleg Barnwrol (a gyhoeddwyd fis Medi 2015) y dylai Mân Anafiadau i'r Gwddf (a ddiffinnir fel adferiad llawn o fewn tri mis) gael rhwng ychydig gannoedd o bunnoedd a £2,050.

**Cwestiwn 8: Os bydd yr opsiwn i ddileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn cael ei ystyried, rhowch eich barn ar b'un a ddylid defnyddio'r system 'Diagnosis'.**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 9: Os penderfynir bwrw ymlaen â'r naill opsiwn neu'r llall i fynd i'r afael â mân hawliadau (gweler Rhan 2 o'r ddogfen ymgynghori hon), a fyddech cystal â rhoi eich barn ar b'un a ddylid defnyddio'r system 'Prognosis'.**

**Esboniwch eich rhesymau.**

66. Cafwyd 509 o ymatebion i gwestiwn 8, gyda'r mwyafrif, o bob sector, yn dadlau yn erbyn defnyddio'r dull Diagnosis. Roedd y rhai a oedd yn teimlo y byddai'r dull diagnosis yn amhriodol yn dadlau:

- y byddai'n well cael adroddiadau meddygol yn gynharach yn y broses er mwyn penderfynu ar gwmpas yr anaf a pha driniaeth neu drefniadau ailsefydlu sydd eu hangen. Gallai oedi am chwe mis cyn paratoi'r adroddiad meddygol olygu oedi cyn rhoi triniaeth angenrheidiol;
- y byddai'r dull Diagnosis yn cymell hawlwyr heb eu hanafu i gysylltu â gweithwyr meddygol proffesiynol fisoedd lawer ar ôl y ddamwain a honni bod ganddynt anaf a gorliwio'r symptomau, ond eu bod (y byddent yn ei honni) bellach wedi gwella'n llwyr. Byddai'r dull Diagnosis felly'n cynyddu'r risg o dwyll; ac
- ni fyddai'r dull Diagnosis yn gwneud fawr ddim i gael gwared ar ansicrwydd neu'r posibilrwydd o dwyll yn y broses gan y byddai'n dal i ddibynnu ar ddisgrifiad goddrychol hawlwyr o'u dioddef.

67. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cefnogi'r dull Diagnosis. Dywedodd yr ymatebwyr hyn ei bod yn haws i weithwyr meddygol proffesiynol i fynegi barn gywir ar anaf ar ôl i rywfaint o amser fynd heibio ac y byddai'r dull Diagnosis yn galluogi arbenigwyr meddygol i ganfod achosion lle'r oedd yr hawlydd wedi dioddef am chwe mis neu lai.

68. Atebwyd cwestiwn 9 gan 499 o ymatebwyr. Roedd y mwyafrif, o bob sector, yn dadlau y dylid defnyddio'r dull Prognosis. Nododd yr ymatebwyr:

- y byddai archwiliad meddygol cynnar yn sicrhau bod hawlwyr yn cael unrhyw driniaeth neu adsefydlu angenrheidiol yn gyflym;
- y byddai hawlwyr gwirioneddol yn cael eu hannog i gyflwyno'u hawliadau heb oedi, gan gyflymu'r broses;
- y byddai'r tebygolrwydd cynyddol y byddai symptomau'n bresennol ar adeg yr archwiliad yn lleihau'r posibilrwydd o achosion twyllodrus neu lle mae'r hawliwr yn gorliwio'u symptomau;
- mai Prognosis yw'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac mae'r diwydiant yn ei ddeall.

69. Awgrymodd y rhai a oedd yn teimlo na ddylai'r dull Prognosis gael ei ddefnyddio:

- bod perygl o "chwyddo hawliadau", lle mae pwysau ar arbenigwyr meddygol i roi eu prognosis ychydig dros y trothwy ar gyfer mân anaf; ac
- am na all arbenigwyr wneud prognosis manwl yn rhy gynnar ar ôl dioddef anaf.

70. Awgrymodd rhai ymatebwyr y bydd problemau â'r system pa bynnag un o'r ddau ddull a ddefnyddir, oherwydd amheuon ynglŷn ag ansawdd adroddiadau meddygol ar gyfer yr hawliadau hyn.

71. Yn ychwanegol at y ddau gwestiwn ar Ddiagnosis neu Brognosis, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn a oedd yr ymatebwyr o'r farn a fyddai'r gofyniad i gael archwiliad meddygol ar adeg benodol ar ôl y ddamwain yn cael effaith bositif ar yr arfer o gyflwyno hawliadau ar ddiwedd y cyfnod cyfyngu.

**Cwestiwn 10: A fyddai cyflwyno'r model 'diagnosis' yn helpu i reoli'r arfer lle bydd hawlwyr yn dwyn eu hawliad yn hwyr yn y cyfnod cyfyngu?**

**Esboniwch eich rhesymau ac os ydych chi'n anghytuno, rhowch eich barn ar sut y dylid mynd i'r afael â hawliadau yr hysbysir yn eu cylch yn hwyr.**

72. Cafwyd 487 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn dadlau:

- bod hawliadau hwyr yn cael eu hannog gan ffactorau na fyddai'r dull Diagnosis yn effeithio arnynt. Er enghraifft, nid yw hawlwyr ar y cyfan yn gwybod am y cyfnod cyfyngu statudol felly ni fyddai newid i ddull Diagnosis yn newid nifer yr hawliadau a wneir yn agos at ddiwedd y cyfnod hwnnw; a
- gallai cyflwyno'r dull Diagnosis arwain at gynnydd mewn gwirionedd mewn hawlwyr sy'n gwneud hawliadau hwyr, oherwydd yr amser aros angenrheidiol cyn y gellir cynnal archwiliad meddygol.

73. Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y byddai cyflwyno'r dull Diagnosis yn helpu i reoli hawliadau hwyr, ond dim ond os byddai gofyniad bod archwiliadau meddygol yn cael eu cynnal yn amserol.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Mae'r Llywodraeth o blaid parhau i ddefnyddio'r dull 'prognosis'. Mae hyn yn galluogi hawlwyr i gael unrhyw adsefydlu / triniaeth yn amserol fel y bydd mor effeithiol â phosibl. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd y bydd MedCo yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y maes hwn. Gall, a bydd MedCo yn parhau i ganfod ymddygiad drwg trwy ddadansoddi ei wybodaeth reoli, a chymryd y camau gorfodi llym angenrheidiol.*

## Rhan 3 – Cyflwyno system tariff penodedig ar gyfer hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

74. Yr ail fesur a oedd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori oedd cyflwyno tariff newydd o iawndaliadau rhagweladwy. Nid yw hwn yn syniad newydd – cafodd system o'r fath ei hargymell gan yr Arglwydd Ustus Jackson yn ei adroddiad 'Review of Civil Litigation Costs: Final Report', a gyhoeddwyd yn 2010.[6] Cafodd ei gynnwys hefyd fel argymhelliad yn adroddiad y Tasglu Twyll Yswiriant a gyhoeddwyd fis Ionawr 2016.[7]

75. Hefyd, mae gan lawer o awdurdodaethau yn Ewrop – fel yr Eidal, Ffrainc, Sbaen, Sweden, Norwy a'r Ffindir – systemau tebyg fel rhan o'u prosesau i ddelio â hawliadau am anafiadau personol isel eu gwerth. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai cyflwyno tariff penodedig o iawndal ar gyfer mân anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn ddull cymesur o dalu iawndal am PSLA yn achos anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ar y ffyrdd a chydbwysedd deg yn erbyn buddiannau defnyddwyr sy'n talu yswiriant modur.

76. Byddai system sy'n rhoi sicrwydd o ran gwerth hawliad hefyd yn helpu'r cynnydd un y terfyn hawliadau bychain, gan y byddai'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar hawlwyr i brisio eu hawliad. Roedd y ddogfen ymgynghori'n amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar sut y byddai system o'r fath yn gweithio'n ymarferol – gan gynnwys lefelau iawndal dangosol newydd – a gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar y ffordd orau o weithredu system o'r fath.

**Cwestiwn 11: Mae'r ffigurau tariff wedi'u datblygu i gyflawni amcanion y llywodraeth. Ydych chi'n cytuno â'r ffigurau a roddwyd?**

**Esboniwch eich rhesymau dros ddweud hyn gan gynnig unrhyw awgrymiadau am ffigurau a dweud sut y cawsoch chi'r ffigurau hynny.**

77. Atebodd 515 o ymatebwyr gwestiwn 11, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn dod o'r sector hawlwyr, a oedd ar y cyfan yn erbyn y cynnig. Roedd y farn a gafwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys bod y ffigurau'n:

- **rhy isel** – roedd mwyafrif o ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn dadlau bod y ffigurau sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau'r Coleg Barnwrol, sydd wedi cael eu defnyddio hyd yma, yn sylweddol uwch ac yn decach i hawlwyr gan eu bod yn ystyried amgylchiadau unigryw pob hawliad;
- **rhy uchel** – roedd nifer fach o ymatebwyr yn dadlau fod y ffigurau a gynigiwyd yn rhy uchel gan y byddent yn parhau i annog hawliadau;

---

6 https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Reports/jackson-final-report-140110.pdf

7 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/494105/PU1817_Insurance_Fraud_Taskforce.pdf

- **rhy gymhleth** – roedd nifer o ymatebwyr, yswirwyr yn bennaf, yn dadlau y byddai rhannu'r tariff i gynnwys anafiadau seicolegol yn gymhleth heb angen ac y byddai'n cymell hawlwyr i honni eu bod wedi dioddef niwed seicolegol bob tro; a
- **phriodol** – roedd nifer fach o ymatebwyr yn credu bod y ffigurau a gynigiwyd yn cynnig lefel resymol o iawndal.

Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau na fyddai tariff sy'n seiliedig ar brognosis anafiadau'n unig yn ystyried ffactorau perthnasol eraill, o ran penderfynu beth yw difrifoldeb yr anaf. Roedd ffactorau perthnasol eraill yn cynnwys a oes angen amser i ffwrdd o'r gwaith ar yr hawlydd neu driniaeth am yr anaf.

78. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr a oedd ar y cyfan yn cytuno â'r ffigurau hefyd yn gwrthwynebu tariff ar wahân ar gyfer anafiadau seicolegol. Roeddent yn dadlau y byddant yn gwneud y system yn gymhleth heb angen ac yn annog ymddygiad drwg.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cyflwyno tariff sengl a fydd yn cynnwys hawliadau am anafiadau atchwip a mân hawliadau seicolegol. Mae'r penderfyniad hwn wedi ystyried barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r canllaw a oedd wedi'i gynnwys yn argraffiad diweddaraf Canllawiau'r Coleg Barnwrol.*

*Mae'r ffigurau yn y tariff wedi cael eu diweddaru i ystyried y cynnydd a geir yn argraffiad diweddaraf Canllawiau'r Coleg Barnwrol. Awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori mai 0–6 mis ddylai'r cyfwng isaf fod, ond mae hyn yn awr wedi'i rannu ymhellach yn ddau fand, sef 0–3 mis a 4–6 mis. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y bydd lefelau'r iawndal a fydd ar gael o dan y tariff newydd fel a ganlyn:*

| Anaf yn Para am | Taliad cyfartalog 2015 am PSLA – wedi'i gynyddu i ystyried Canllaw'r Coleg Barnwrol (data'r diwydiant) | Symiau Canllaw'r Coleg Barnwrol (JCG) (13eg argraffiad) Cyhoeddwyd Medi 2015 | Symiau'r tariff newydd |
|---|---|---|---|
| 0–3 mis | £1,750 | Ychydig gannoedd o bunnoedd i £2,050 | £225 |
| 4–6 mis | £2,150 | £2,050 i £3,630 | £450 |
| 7–9 mis | £2,600 | £2,050 i £3,630 | £765 |
| 10–12 mis | £3,100 | £2,050 i £3,630 | £1,190 |
| 13–15 mis | £3,500 | £3,630 i £6,600 | £1,820 |
| 16–18 mis | £3,950 | £3,630 i £6,600 | £2,660 |
| 19–24 mis | £4,500 | £3,630 i £6,600 | £3,725 |

79. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn gofyn a ddylid cynnwys darpariaeth ar gyfer eithriadau yn y tariff. Byddai darpariaeth o'r fath yn galluogi'r farnwriaeth, os gwneir cais, i gynyddu'r swm sy'n daladwy i hawlydd hyd at 20% mewn amgylchiadau eithriadol.

**Cwestiwn 12: A ddylid cynnwys yr amgylchiadau lle gellir dewis cynyddu'r taliadau yn y ddeddfwriaeth neu a ddylai'r Farnwriaeth allu dewis cynyddu'r taliadau iawndal penodedig hyd at 20% o dan amgylchiadau eithriadol?**

**Esboniwch eich rhesymau gan nodi pa amgylchiadau y byddech chi'n eu hystyried yn rhai eithriadol.**

80. Atebodd 496 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, o bob sector o'r diwydiant, yn gwrthwynebu cynnydd dewisol yn y taliadau, ond am wahanol resymau. Roedd nifer o'r rhain, yswirwyr yn bennaf, yn gwrthwynebu'r cysyniad o gynyddu'r taliad gan ddadlau y byddai'n tanseilio manteision a symlrwydd tariff. Roedd eraill, cyfreithwyr hawlwyr yn bennaf, yn gwrthwynebu'r cynnydd dewisol mewn taliadau gan ddadlau y dylai'r Farnwriaeth gadw disgresiwn llwyr i ddyfarnu iawndal am PSLA. Roedd rhai ymatebwyr o blaid cyflwyno cynnydd dewisol mewn taliadau, gan ddadlau y byddai'n ychwanegu hyblygrwydd.

81. Rhoddwyd yr enghreifftiau canlynol o'r hyn y gellid eu hystyried yn amgylchiadau eithriadol:

- lle'r oedd honiadau o dwyll, anonestrwydd sylfaenol neu wrthdrawiad cyflymder isel;
- lle mae anghydfod o ran atebolrwydd;
- lle mae colli amwynder yr unigolyn yn uwch nag arfer (rhai sy'n cymryd rhan mwn chwaraeon, er enghraifft); a
- lle mae'r dioddefwyr yn oedrannus, ag anabledd ac mae eu gallu i fyw'n annibynnol yn cael ei effeithio.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Cafwyd dadleuon da dros ac yn erbyn cynnwys cynnydd barnwrol o 20% mewn ymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, Ar ôl pwyso a mesur, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ei bod yn briodol i gynnwys cynnydd o'r fath a bydd yn bwrw ymlaen â hyn fel rhan o'r rhaglen ddiwygio. Fodd bynnag, ar ôl nodi awgrymiadau ar yr hyn y gellid eu hystyried fel amgylchiadau eithriadol, fel y rhai a restrwyd uchod, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu diffinio amgylchiadau eithriadol o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol. Yn hytrach rydym yn credu y byddai'n fwy priodol i adael ystyriaeth o'r hyn sy'n gwneud cais yn eithriadol i ddisgresiwn y llysoedd.*

# Rhan 4 – Codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol

82. Er mwyn lleihau costau ymgyfreithia sy'n gysylltiedig â hawliadau am anafiadau personol cost isel ymhellach, mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar gynyddu'r terfyn hawliadau bychain – gan gyfeirio at werth yr elfen PSLA o'r hawliad – o £1,000 i £5,000.

83. Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae nifer o resymau pam y mae'r Llywodraeth yn credu y byddai'n briodol i gynyddu'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod y terfyn ar gyfer hawliadau o'r fath wedi'i bennu'n £1,000 wreiddiol, yn 1991, ac mae'n hen bryd ei gynyddu. Byddai cynyddu'r terfyn hawliadau bychain yn golygu y byddai'r ddwy ochr wedyn yn gyfrifol am dalu eu costau cyfreithiol eu hunain, hyd yn oed os oedd iawndal yn cael ei ddyfarnu am PSLA ar gyfer eu hanafiadau.

## Cwmpas y cynnydd

84. Roedd y ddogfen ymgynghori'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer cynyddu'r terfyn hawliadau bychain o ran ei gwmpas a gofynnodd i'r ymatebwyr a ddylai'r mesur hwn gynnwys pob hawliad am anafiadau personol ynteu hawliadau am ddamweiniau ar y ffyrdd yn unig, ac a oedd achos dros ymestyn y terfyn y tu hwnt i £5,000.

**Cwestiwn 13: A ddylid codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer pob anaf personol neu a ddylai fod yn gyfyngedig i ddamweiniau ffordd yn unig?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

85. Atebodd 544 o ymatebwyr gwestiwn 13. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gyfreithwyr hawlwyr a oedd ar y cyfan yn gwrthwynebu unrhyw gynnydd i'r terfyn hawliadau bychain cyfredol o £1,000. Roedd Undebau Llafur, Cwmnïau Rheoli Hawliadau a seiclwyr hefyd yn gwrthwynebu'r cynnydd i'r terfyn a gynigiwyd. Cafwyd ymateb hefyd gan aelodau o'r Farnwriaeth a dynnodd sylw at bryderon ynglŷn ag effaith bosibl y diwygiad hwn ar adnoddau llysoedd a'r farnwriaeth. Roedd nifer o'r ymatebwyr hyn hefyd yn cydnabod nad yw'r terfyn wedi'i godi ers peth amser, ond gan ddadlau os oes yn rhaid ei godi, yna dylai godi ar yr un raddfa â chwyddiant yn unig.

86. Cafwyd 5,995 o lythyrau ymgyrch unffurf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gan seiclwyr. Y prif bwynt a wnaethpwyd yn y llythyrau hyn oedd bod hawliadau a wneir gan seiclwyr yn dilyn damwain yn fwy cymhleth nag mewn hawliadau am anafiadau atchwip gan fod anghydfod yn aml ynglŷn ag atebolrwydd a / neu gyhuddiad o esgeulustod cyfrannol.

87. Roedd Undebau Llafur yn bryderus y byddai codi'r terfyn ar gyfer pob hawliad am anafiadau personol yn dod â hawliadau sy'n gysylltiedig â gwaith i'r cwmpas a bod hynny'n annheg. Roeddent yn dadlau bod yr hawliadau hyn ar y cyfan yn fwy cymhleth na hawliadau damweiniau ar y ffyrdd, oherwydd materion achos ac atebolrwydd. Roedd nifer o gyfreithwyr hawlwyr hefyd yn cytuno â'r farn hon.

88. Y prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr dros beidio â chynyddu'r terfyn hawliadau bychain am bob hawliad am anafiadau personol oedd:

- mae angen asesu effeithiau diwygiadau blaenorol fel y darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2013 yn drylwyr cyn cyflwyno rhagor o ddiwygiadau;
- y diwydiant yswiriant yn unig fyddai'n elwa ar godi'r terfyn a byddai'n cyfyngu at fynediad at gyfiawnder i hawlwyr;
- anawsterau y gallai pobl sy'n cynrychioli eu hunain yn eu hawliau eu profi heb gynrychiolaeth gyfreithiol, a allai achosi oedi, cais am fwy o adnoddau cyfreithiol ac atal mynediad at gyfiawnder;
- bydd yswirwyr diffynyddion yn dal i gael cynrychiolaeth gyfreithiol, ond ni fydd gan hawlwyr gynrychiolaeth o'r fath, a bydd hynny'n arwain at anghydraddoldeb;
- byddai diwygiadau eraill yn lleihau lefelau'r PSLA sydd ar gael, felly nid oes angen codi'r terfyn hawliadau bychain;
- byddai cynnydd yn nifer y CMCau a McKenzie Friends yn y farchnad hon; a
- byddai codi'r terfyn i £5,000 ar gyfer pob hawliad am anafiadau personol yn golygu y byddai'n rhaid delio â rhai anafiadau difrifol iawn yn y llys hawliadau bychain. Rhoddodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau o anafiadau a allai gael eu cynnwys os byddai'r terfyn yn cael ei godi fel yn y cynnig.

89. Hefyd, mynegwyd pryderon gan gyfreithwyr hawlwyr yn benodol, am yr effaith y byddai'r cynnydd yn ei gael ar gwmnïau anafiadau personol, gyda pherygl y byddai llawer o swyddi'n cael eu colli yn y sector. Nodwyd hefyd effeithiau posibl ar y llysoedd, y GIG ac incwm i'r Llywodraeth.

90. O'r rhai a oedd yn cefnogi codi'r terfyn, roedd y mwyafrif, o'r sector yswiriant yn bennaf, yn dadlau y dylid cyfyngu unrhyw gynnydd i hawliadau damweiniau ar y ffyrdd, yn y tymor byr o leiaf. Y prif reswm a roddwyd i gefnogi'r cynnydd oedd am nad oedd y terfyn wedi codi ar yr un raddfa â chwyddiant a'r cynnydd yn lefelau taliadau iawndal. Roedd y rhesymau dros gyfyngu cynnydd i ddamweiniau ar y ffyrdd yn canolbwyntio ar y ffaith mai hwn yw'r prif faes niwed a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'i bod yn bwysig canolbwyntio ymdrechion ar weithredu'r hawliadau hyn cyn ymestyn y cynnydd yn fwy cyffredinol i gynnwys hawliadau am anafiadau personol. Roedd cydnabyddiaeth hefyd bod hawliadau am anafiadau personol nad ydynt yn ddamweiniau ar y ffyrdd yn gallu bod yn fwy cymhleth gan fod mwy o ystyriaethau'n aml yn gysylltiedig ag atebolrwydd ac achos.

91. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i ddatblygu mecanwaith adolygu mewn perthynas â'r terfyn hawliadau bychain a'r tariff o iawndaliadau rhagweladwy ar gyfer PSLA am hawliadau atchwip.

92. Yn ogystal ag ystyried a ddylid codi'r terfyn hawliadau bychain am bob hawliad am anafiadau personol ynteu eu cyfyngu i hawliadau'n gysylltiedig â damweiniau ar y ffyrdd yn unig, roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a ddylai'r terfyn gael ei godi dros y lefel o £5,000 a gynigir. Gofynnwyd y cwestiwn hwn yng nghyd-destun y terfyn hawliadau bychain sy'n cael ei bennu'n awr ar £10,000 am bob math o hawliad heblaw anafiadau personol a diffyg atgyweirio tai.

**Cwestiwn 14: Nid yw'r terfyn ar gyfer trac yr hawliadau bychain am anafiadau personol wedi codi ers 25 mlynedd. Felly bydd y terfyn yn cael ei godi i gynnwys hawliadau sy'n cynnwys elfen o boen, dioddef a cholli amwynder gwerth hyd at £5,000. Fodd bynnag, byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar b'un a ddylid codi'r terfyn hawliadau bychain am anafiadau personol y tu hwnt i £5,000 ac os felly, pam ac i ba lefel?**

93. Atebodd 523 o ymatebwyr gwestiwn 14. Roedd y mwyafrif, o'r diwydiant, yn erbyn codi'r terfyn dros £5,000. Yr un prif resymau a roddwyd dros beidio â chodi'r terfyn yn uwch ag a roddwyd mewn ymateb i gwestiwn 13. O'r nifer fach o ymatebion a oedd yn cefnogi codi'r terfyn dros £5,000, y prif reswm a roddwyd oedd y dylai godi i £10,000 er mwyn cyfateb â'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer mathau eraill o hawliadau.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Yn unol â'r rhesymau a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori, ac ar ôl nodi'r ymatebion a gafwyd, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu codi'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer hawliadau'n gysylltiedig â damweiniau ar y ffyrdd i £5,000. Hefyd, ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid ar hawliadau am anafiadau personol nad ydynt yn gysylltiedig â damweiniau ar y ffyrdd, dylai'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer pob math arall o hawliadau am anafiadau personol gael eu codi i £2,000 yn unol â chwyddiant.*

*Bydd y Llywodraeth yn cydweithio'n agos â phartïon â diddordeb i sicrhau bod y cynnydd yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn ymwreiddio'n briodol. Byddwn adolygu'r terfyn hawliadau bychain am bob hawliad am anafiadau personol a byddwn yn ystyried a fydd angen cynnydd pellach i £5,000 am bob hawliad am anafiadau personol yn y dyfodol.*

## Pobl sy'n eu Cynrychioli eu Hunain

94. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn roedd llawer o gyfreithwyr hawlwyr yn dadlau na fyddai hawlwyr yn gallu cychwyn achos yn y llys heb help cyfreithiol ac y byddai'n annheg i ofyn iddynt dalu am yr help hwn os oes ei angen arnynt. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw hawliadau am anafiadau personol isel eu gwerth mor gymhleth fel bod angen cyfreithiwr bob tro. Ni fyddai codi'r terfyn hawliadau bychain i gynnwys hawliadau PSLA o hyd at £5,000 yn atal hawlwyr rhag cael cynrychiolaeth gyfreithiol, ond byddai'n golygu y byddent yn y dyfodol yn gyfrifol am dalu eu costau cyfreithiol eu hunain os ydynt yn dymuno.

95. Mae'r Llywodraeth yn derbyn efallai na fydd rhai hawlwyr yn deall y broses, ond bydd hyn yn cael ei leddfu gan y lefel uchel o help a chefnogaeth sydd ar gael i bob hawlydd sy'n eu cynrychioli eu hunain. Er enghraifft, mae canllaw penodol ar gyfer pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain ac ar wneud hawliadau bychain wedi cael eu cyhoeddi gan y Cyngor Cyfiawnder Sifil a Chyngor y Bar. Mae'r dogfennau hyn i'w cael yma:

- https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/CJC/Publications/Other+papers/Small+Claims+Guide+for+web+FINAL.pdf
- http://www.barcouncil.org.uk/media/203109/srl_guide_final_for_online_use.pdf

96. Yn ogystal â'r canllaw a nodwyd uchod, mae gan y Llywodraeth daflenni a chanllawiau ar y we hefyd sydd ar gael yn www.gov.uk ac sydd wedi'u cynhyrchu'n benodol ar gyfer pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain. Mae'r rhain yn rhoi trosolwg cam wrth gam ar

gymhwysedd ar gyfer y trac hawliadau bychain a gofynion pob parti, gyda chyngor ar gymhwysedd ar gyfer y trac hawliadau bychain a sut i baratoi ar gyfer gwrandawiad.

97. Nododd y Llywodraeth hefyd y posibilrwydd y bydd cynnydd yn nifer y cwmnïau rheoli hawliadau (CMC) a McKenzie Friends[8] sy'n derbyn tâl a fydd yn ailymuno â'r farchnad anafiadau personol i gynnig cymorth rhad i hawlwyr. Roeddem yn awyddus i glywed a oedd ymatebwyr yn credu y byddai hyn yn fuddiol ai peidio i helpu ymgyfreithwyr na fyddai'n cael eu cynrychioli fel arall.

**Cwestiwn 15: Rhowch eich barn ar unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i roi rhagor o gymorth i bobl sy'n eu cynrychioli eu hunain yn y Trac Hawliadau Bychain.**

**Cwestiwn 16: Ydych chi'n meddwl y dylid rhoi unrhyw fesurau penodol ar waith yng nghyswllt cwmnïau rheoli hawliadau a McKenzie Friends sy'n derbyn tâl sy'n gweithredu yn y sector anafiadau personol?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

98. Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr i gwestiwn 15 enghreifftiau o welliannau y gellid eu gwneud i'r trac hawliadau bychain i helpu pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain. Cafwyd enghreifftiau gan ymatebwyr o bob rhan o'r sector anafiadau personol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- darparu cyngor / cynrychiolaeth gyfreithiol ddi-dâl i hawlwyr a gwella mynediad a'r ddarpariaeth cyngor gan asiantaethau cymorth fel Cyngor ar Bopeth;
- newid y system wrthwynebol bresennol a defnyddio system gyflafareddu annibynnol yn hytrach i setlo anghydfodau;
- gwneud Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau'n orfodol cyn cychwyn achos yn y llysoedd;
- symleiddio'r ffurflenni hawliadau a pharatoi templedi enghreifftiol;
- symleiddio gweithdrefnau'r llysoedd, gan greu amddiffyniad safonol a chynnal mwy o wrandawiadau ar bapur;
- creu system ar-lein sy'n galluogi hawlwyr i wneud hawliadau a chael cofnodion meddygol neu ymestyn MedCo a'r porth hawliadau at ddefnydd pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain;
- creu system debyg i MedCo i benodi rhywun i ddarparu cyngor / cynrychiolaeth gyfreithiol am swm penodedig i bobl sy'n eu cynrychioli eu hunain;
- paratoi siartiau llif sy'n dangos y broses a chanllaw ar y gwahanol gamau fel sut i gael adroddiad meddygol a sut i baratoi ar gyfer gwrandawiadau;
- diffynyddion yn trefnu adroddiadau meddygol;

---

[8] Mae McKenzie Friends yn cynorthwyo pobl sy'n cynrychioli eu hunain mewn llys y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Nid oes angen iddynt fod yn gymwys yn gyfreithiol ac fel arfer cynghorwyr lleyg ydynt sy'n rhoi cefnogaeth foesol i ymgyfreithwyr, yn cadw cofnodion, yn helpu gyda phapur achosion ac yn rhoi cyngor ar sut y bydd achos yn mynd rhagddo. Ni all McKenzie Friends gynnal ymgyfreithiad, annerch y llys na llofnodi dogfennau'r llys. Mae eu gwasanaethau am ddim fel arfer, ond mae McKenzie Friends sy'n derbyn tâl yn dod yn fwyfwy cyffredin.

- cyflwyno cod ymddygiad gorfodol ar gyfer yswirwyr a chynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o yswiriant Cyn y Digwyddiad;
- cyflwyno tariffau clir yn gyffredinol fel y bydd hawlwyr yn gwybod beth yw gwerth eu hawliad;
- hepgor hawliadau lle mae atebolrwydd yn cael ei wadu o'r trac hawliadau bychain.

99. Rhoddodd tua hanner yr ymatebwyr enghreifftiau o fesurau penodol y gellid eu rhoi ar waith yn gysylltiedig ag CMCau a McKenzie Friends sy'n derbyn tâl sy'n weithredol yn y sector hwn. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai CMCau a McKenzie Friends gael eu gwahardd o'r farchnad yn gyfan gwbl. Y prif awgrymiadau oedd:

- cyflwyno gwaharddiad ar alwadau niwsans diwahoddiad sy'n gysylltiedig â hawliadau am anafiadau personol;
- gwaharddiad llwyr ar ffioedd atgyfeirio rhwng CMCau, cyfreithwyr ac yswirwyr gyda gorfodaeth well;
- creu codau ymarfer clir i bawb sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ac y bydd yn rhaid cydymffurfio â hwy;
- sicrhau bod McKenzie Friends yn cael eu cofrestru a'u rheoleiddio;
- darparu gwybodaeth i hawlwyr ar CMCau a McKenzie Friends, gan gynnwys yr hyn y gallant ei ddisgwyl ganddynt a'r ffioedd a fydd yn daladwy;
- hyfforddiant i McKenzie Friends;
- mynnu bod gan McKenzie Friends yswiriant indemniad;
- capio ffioedd y gall McKenzie Friends a CMCau eu codi neu eu hatal rhag gallu codi ffioedd;
- rheoleiddio CMC a McKenzie Friends ar yr un lefel â chyfreithwyr;
- mynnu bod CMCau yn 'fetio' darpar gleientiaid yn ddigon trylwyr yn yr un ffordd â chyfreithwyr hawlwyr i sicrhau nad oes tystiolaeth gyferbyniol i atal hawliadau annheilwng; a
- newid enw McKenzie Friends i 'gefnogwr llys'.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Bydd y Llywodraeth yn ystyried ymhellach yr awgrymiadau a wnaethpwyd mewn ymateb i gwestiynau 15 ac 16, a bydd yn gweithio â rhanddeiliaid yn y diwydiant i ddatblygu trefniadau cymorth priodol i helpu i gynyddu'r terfyn hawliadau bychain. Bydd y Llywodraeth hefyd yn trafod yr effeithiau posibl ar adnoddau'r llysoedd a'r farnwriaeth â'r farnwriaeth a phartïon eraill â diddordeb. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo hefyd i gydweithio'n agos â MedCo ac â Claims Portal Limited ar y mater hwn, gan gadw mewn cof yr angen i Bobl sy'n eu Cynrychioli eu Hunain sydd ag anafiadau gwirioneddol i gael mynediad cyflym a rhwydd at y gwasanaethau hyn i helpu eu hawliad.*

# Rhan 5 – Cyflwyno gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

100. Y mesur olaf yn y rhaglen ddiwygio yr ymgynghorwyd arno oedd gwahardd cynigion i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd heb adroddiad meddygol, arfer a adwaenir hefyd fel gwneud 'cynigion cyn prawf meddygol'. Mae rhai'n dadlau bod rhai yswirwyr yn gwneud hyn i reoli costau. Mae peth tystiolaeth hefyd bod cyfran o gyfreithwyr hawlwyr yn gofyn am gynigion o'r fath. Mae hyn yn eu galluogi i hawlio'n gyflym heb i lawer o gostau gael eu didynnu o'r swm penodedig sydd ar gael i brosesu hawliad. Nid yw hyn yn helpu hawlwyr gwirioneddol gan ei fod yn gallu arwain at setliad rhy fychan i hawlwyr ac mewn rhai o'r achosion difrifol cyfreithia posibl yn y dyfodol.

101. Fodd bynnag, pryder penodol y Llywodraeth yw y gall y defnydd o gynigion cyn prawf meddygol gan yswirwyr annog mân hawliadau, neu hawliadau twyllodrus, ac arwain at yr ymdeimlad bod mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal, yn "arian hawdd". Mae'r Llywodraeth yn credu felly bod yn rhaid rhoi'r gorau i'r arfer hwn. O ran cwmpas, mae'r Llywodraeth wedi cynnig y dylai gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol fod yn weithredol yn achos anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn unig a gofynnodd a ddylid caniatáu unrhyw eithriadau i waharddiad o'r fath. Gofynnwyd felly am sylwadau ar gwmpas gwaharddiad, a ddylid caniatáu unrhyw waharddiadau a sut ddylai gwaharddiad o'r fath gael ei orfodi.

**Cwestiwn 17: Ai dim ond i anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd y dylai'r gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol fod yn berthnasol?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

102. Atebodd 496 o ymatebwyr gwestiwn 17. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, o'r sector hawlwyr yn bennaf, yn dadlau y dylai'r gwaharddiad gynnwys pob hawliad am anafiadau personol. Roedd rhai ymatebwyr, o'r sector yswiriant yn bennaf, yn dadlau y dylai'r gwaharddiad gynnwys hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau ar y ffordd yn unig. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn erbyn unrhyw fath o waharddiad ac yn dadlau bod cynigion cyn prawf meddygol yn cyflymu'r broses ac yn lleihau costau.

**Cwestiwn 18: A ddylai fod unrhyw eithriadau i'r gwaharddiad ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?**

103. Atebodd 492 o ymatebwyr gwestiwn 18 gyda'r mwyafrif, o bob rhan o'r diwydiant, yn dadlau na ddylid caniatáu dim eithriadau i'r gwaharddiad. O'r nifer fach o ymatebwyr a oedd yn credu y dylid caniatáu eithriadau, roedd y rhan fwyaf yn awgrymu y dylai hawliadau am anafiadau nad ydynt yn gysylltiedig â damweiniau ar y ffordd gael eu heithrio, ac y dylai hawlwyr gael yr hawl i dderbyn cynigion o'r fath os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

**Cwestiwn 19: Sut y dylid gorfodi'r gwaharddiad?**
**Esboniwch eich rhesymau.**

104. Atebodd 488 o ymatebwyr gwestiwn 19. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu y dylai'r gwaharddiad gael ei weithredu gan y rheolyddion perthnasol, er enghraifft, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr a'r Rheolydd Rheoli Hawliadau. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- rheoleiddio'r diwydiant yn fewnol gan yswirwyr;
- gosod mewn cyfraith y bydd unrhyw gynnig cyn archwiliad meddygol yn ddi-rym ac na ellir ei orfodi; a
- cyflwyno cosbau ariannol i'r sawl sy'n torri'r gwaharddiad.

***Gweithredu gan y Llywodraeth:*** *Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae wedi penderfynu cyflwyno deddfwriaeth i wahardd cynigion i setlo heb dystiolaeth feddygol mewn hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau ar y ffordd yn unig. Bydd y gwaharddiad yn cynnwys gwneud, llithio, derbyn a chael cynnig o'r fath. Ni fydd eithriadau i'r gwaharddiad a bydd yn waharddiad rheoleiddiol a fydd yn cael ei orfodi trwy reolyddion perthnasol a enwir yn y ddeddfwriaeth.*

## Rhan 6 – Rhoi argymhellion y Tasglu Twyll Yswiriant ar waith a 'Galw am Dystiolaeth' ar faterion cysylltiedig

105. Cymerodd y Llywodraeth y cyfle hefyd, yn sgil yr ymgynghoriad, i gasglu barn rhanddeiliaid ar nifer o faterion cysylltiedig eraill sy'n effeithio ar y sector anafiadau personol. Y rhain oedd:

i. Gweithredu argymhellion penodol a wnaethpwyd gan y Tasglu Twyll Yswiriant;

ii. Llogi ar gredyd;

iii. Hysbysu'n fuan ynghylch hawliadau;

iv. Adsefydlu;

v. Gall adennill alldaliadau; a

vi. Chyflwyno system o fath Barème.

106. Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y materion a ddangosir uchod. Nid oes bwriad gan y Llywodraeth i roi sylw i'r materion hyn yn y ddogfen ymateb hon. Yn hytrach, bydd ail ddogfen ymateb yn cael ei chyhoeddi yn y man a fydd yn edrych yn fwy manwl ar y cynigion hyn ac a fydd yn amlinellu'r ffordd ymlaen.

## Rhan 7 –Asesiad o'r Effeithiau

Mae'r Asesiad o'r Effeithiau sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad yn cael ei ddiweddaru i ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd yr Asesiad wedi'i ddiweddaru'n cael ei gyhoeddi yn y man.

# Casgliad a'r camau nesaf

107. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad 'Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddwl ('atchwip') fel sail i'w phenderfyniadau polisi terfynol ar gyfer y rhaglen newydd i ddiwygio hawliadau am anafiadau atchwip. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r mesurau canlynol trwy gymysgedd o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

## Rhan 1 – Nodi'r materion a diffinio anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

### *Diffinio hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal*

108. Bydd y rhaglen ddiwygio'n cael canolbwyntio ar hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau traffig ar y ffyrdd a mân hawliadau seicolegol. Bydd y rhain yn cael eu diffinio fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol.

### *Diffinio 'mân' hawliadau*

109. Nid oes angen bellach i ddiffinio'r hyn a dybir sy'n 'fân' hawliad oherwydd penderfyniad y Llywodraeth ar y tariff iawndaliadau rhagweladwy.

## Rhan 2 – Lleihau nifer a chost mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

110. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â dileu taliad am PSLA ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd na chael taliad sengl am fân hawliadau. Yn hytrach, bydd gan y tariff iawndaliadau rhagweladwy ddau fand ychwanegol sy'n delio â hawliadau ag anaf sy'n para o 0 i 3 mis ac o 4 i 6 mis.

### *Proses i asesu am ba hyd mae anafiadau'n para*

111. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r dull prognosis i asesu am ba hyd mae anafiadau'n para.

## Rhan 3 – Cyflwyno system tariff penodedig ar gyfer hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

112. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio tariff penodedig ar gyfer pob hawliad am anaf sy'n para rhwng 0 a 24 mis fel yr amlinellir ym mharagraff 78. Mae'r ffigurau a gynigir yn y tariff wedi cael eu cynyddu i ystyried y fersiwn ddiweddaraf o Ganllawiau'r Coleg Barnwrol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn rhoi'r gallu i'r farnwriaeth i ostwng y swm a ddyfernir o dan y tariff mewn achosion lle mae esgeulustod cyfrannol neu i gynyddu'r dyfarniad (gyda chynnydd wedi'i gapio ar ddim mwy nag 20%) mewn amgylchiadau eithriadol.

## Rhan 4 – Codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol

113. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu codi'r trac hawliadau bychain o £1,000 i £5,000 am hawliadau am anafiadau personol yn sgil damweiniau ar y ffyrdd a bydd yn codi'r trac hawliadau bychain yn unol â chwyddiant o £1,000 i £2,000 yn achos hawliadau am anafiadau personol eraill.

114. Bydd y Llywodraeth yn gweithio â phartïon â diddordeb ym mhob rhan o'r diwydiant i weithredu'r mesur hwn, gan gynnwys datblygu cymorth i Hawlwyr sy'n Cynrychioli eu Hunain a gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r Porth Hawliadau, MedCo a'r Protocolau Cyn Achos.

## Rhan 5 – Cyflwyno gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd

115. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwahardd cynigion i setlo hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damwain ffordd heb dystiolaeth feddygol. Bydd y gwaharddiad yn cynnwys cynnig a gofyn am setliadau o'r fath, ac ni fydd dim eithriadau i'r gwaharddiad. Y bwriad yw y bydd gwaharddiad rheoliadol yn cael ei orfodi trwy'r rheolyddion perthnasol.

### *Casgliad*

116. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cymalau yn y Bil Carchardai a Llysoedd i osod tariff iawndaliadau rhagweladwy am hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau ar y ffordd a mân anafiadau seicolegol, boed hwy'n brif elfen neu elfen eilaidd yr hawliad am anaf atchwip. Bydd y tariff yn cynnwys anafiadau sy'n para rhwng 0 a 24 mis.

117. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno cymalau yn y Bil Carchardai a Llysoedd i wahardd cynigion i setlo hawliadau am anafiadau atchwip yn sgil damweiniau ar y ffordd heb dystiolaeth feddygol.

118. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Sifil, a fydd yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil, i godi'r terfyn hawliadau bychain i £5,000 ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yn sgil damweiniau ar y ffordd ac i £2,000 yn achos hawliadau am anafiadau personol eraill.

119. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i weithredu'r newidiadau hyn yn effeithiol.

### *Gweithredu*

120. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi'r mesurau hyn ar waith ar 1 Hydref 2018.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn yr egwyddorion ymgynghori.

https://www.gov.uk/Government/publications/consultation-principles-guidance

## Cydraddoldeb

Fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori, gofynnwyd nifer o gwestiynau yn Rhan 10 o'r ddogfen ymgynghori sy'n gysylltiedig â chwestiynau sy'n benodol i'r asesiad o'r effeithiau. Bydd yr asesiad o'r effeithiau'n ystyried y materion hyn ymhellach.

# Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr

### Wedi'i rhoi fesul sector

| Math o ymatebwr | Cyfanswm |
|---|---:|
| Cyfreithiwr hawliadau | 349 |
| CMC | 20 |
| Llogi ar gredyd | 43 |
| Cyfreithiwr Diffynyddion | 12 |
| Unigolyn | 38 |
| Yswiriwr | 30 |
| Y Farnwriaeth | 6 |
| Awdurdod Lleol | 2 |
| Arbenigwr Meddygol | 23 |
| AS/Grŵp Seneddol | 2 |
| MRO | 4 |
| Cwmni adsefydlu | 2 |
| Grŵp Cynrychioliadol | 43 |
| Undeb Llafur | 7 |
| Trafnidiaeth/Teithio | 15 |
| Arall | 26 |
| Dim enw wedi'i roi | 3 |

Rhestr o sefydliadau a ymatebodd:

9 Gough Square

12 Kings Bench Walk

360Globalnet

A2 Solicitors LLP

A2J Group (yr ymateb wedi'i gefnogi gan 57 o sefydliadau)

ABI

ABTA – The Travel Association

Accident Lawyers

Accident Management Company

Accident Rehab

Accidents Direct

Aegis Legal

Aequitas Legal

Affinity Law

Ageas Insurance Ltd

AIG Insurance

Aioi Nissay Dowa Insurance Europe

Alarm, Sefydliad Aelodau sy'n cynrychioli'r sector cyhoeddus

Allianz Insurance

Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar gyfer Gwasanaethau Yswiriant a Ariannol

Allweis & Co Solicitors

Alyson France & Co Solicitors

Amanda Cunliffe Solicitors

Anything Legal Ltd

APIL

ARAG

Armstrong Solicitors

Arriva plc

Asda

Ashfords LLP – Solicitors

Ashtons Legal

ASLEF

Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth

Atlantic Chambers

Auto Claims UK Ltd

Automotive and Insurance Solutions Group PLC

AutoResolutions Ltd

Auxillis

Aviva Insurance

Axa Insurance

Bailoran Solicitors

Cyngor y Bar

Barcan & Kirby

Barretts Solicitors

Bartletts Solicitors Ltd

Bates Wells and Brathwaite Solicitors

Beacon Independent Medical Examiners Ltd

Beecham Peacock Solicitors

BG Solicitors LLP

BLM Law

Box Legal Limited

Brian Barr Solicitors

Bridge McFarland

Ffederasiwn Seiclo Prydain

Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain

Sefydliad Meddygol Prydain

Ffederasiwn Beicwyr Modur Prydain

Broadgate Legal

Brokeraide Limited – Own Company

Browne Jacobson LLP

Bryan & Armstrong Solicitors

Canter Levin & Berg Solicitors

Carpenters Law

Cymdeithas Siartredig Ffisiotherap

Chief Rentals

Cilex

Y Cyngor Cyfiawnder Sifil (Cyffredinol)

Y Cyngor Cyfiawnder Sifil (y Farnwriaeth)

Claims Portal Ltd

Cleggs Solicitors

Clerksroom

Cloisters

Clyde & Co

Cobden House Chambers

Compass Costs Solutions

Co-Operative Group

Co-Operative Insurance

Cordell & Co

Cornish Mutual

Covea Insurance

Y Sefydliad Llogi ar Gedyd (CHO)

Cunningham Lindsey (Loss Adjusters)

Curtis Law Solicitors

Cycling UK

David J Miller Insurance Brokers Ltd

DCA Beachcroft

DDJ and mediator

Deans Court Chambers

Cymdeithas y Cyfreithwyr Dyfnaint a Chernyw

Devonalds Solicitors

DGM Solicitors

Direct Line Group

DLS Assessors Limited

dnata Travel

Doctors Chambers (UK) Ltd

Dowse & Co

DPP Law Ltd

Driscoll Kingston Solicitors

Dunne & Gray Solicitors

DWF LLP

EAD Solicitors

Easi Drive

Easthams Solicitors Ltd

Edam Group

Elite Insurance Company

Emsleys Solicitors

Enterprise Rent-A-Car

esure

Exchange Partners

Express Solicitors

Fairweather Solicitors LLP

First4Lawyers

FirstGroup plc

Fletchers Solicitors (Arbenigwyr mewn damweiniau beiciau modur)

FMG Legal

Forbes Solicitors

Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant

Furley Page Solicitors

Garvins Solicitors

Gary Williams Solicitors

Gotelee Solicitors

Gowing Law Solicitors

Graham & Rosen, solicitors

Graham Coffey & Co Solicitors

Graham M Riley & Co Solicitors Ltd

Graysons Solicitors

Green Law Solicitors

Hansells Solicitors

Hertz Accident Support

Hesling Henriques

Hill Dickson

Hodge Jones & Allen LLP

Holmes & Hills LLP

Horwich Cohen Coghlan Ltd

Hudgell Solicitors

Cymdeithas y Cyfreithwyr Hull and East Yorkshire

Ibotson Brady Solicitors Ltd

Imperium Law

Sefydliad y Paragyfreithwyr

Y Swyddfa Twyll Yswiriant

InterResolve

Irwin Mitchell LLP

Jackson Canter Limited

Jefferies Solicitors

Jet2Holidays

Jigsaw Law

JNPLEGAL

Joe Egan Solicitors

Kaizen Law Solicitors

Kennedys

Keoghs Solicitors

Keystone Legal Benefits Ltd (Yswirwyr Costau Cyfreithiol ar ôl y Digwyddiad)

Kindertons Accident management

Kiteleys Solicitors

Knightsbridge Solicitors

Lambert Taylor & Gregory

Lansdale and Holdsworth solicitors

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Lawson West Solicitors Ltd

Cymdeithas y Cyfreithwyr Leeds

Legal Costs Expert

Legal HD Ltd

Legal Solutions Partnership

Cymdeithas y Cyfreithwyr Swydd Gaerlŷr

Leigh Day

Cymdeithas y Cyfreithwyr Lerpwl

Lloyds Market Association

Lupton Fawcett

LV= General Insurance

Mackrell & Thomas Solicitors

Magna Accident Services

Cymdeithas y Cyfreithwyr Manceinion

Manufacturing Company

Mark Thompson Law

Marsons Solicitors LLP

Martin Kaye Injury LLP

Medical Legal Doctor UK

Michael Bakers Solicitors Limited t/as Bakers Solicitors

Michael Lewin Solicitors

Milne Moser Solicitors

MJL Law Limited

Monarch Travel

Cymdeithas y Cyfreithwyr Corfforedig Sir Fynwy

Mooney Everett Solicitors

Morecrofts LLP

Morris Law Ltd

Morrish Solicitors LLP

Motability Operations Group Plc

Motor Accident Protection Services Ltd

Cymdeithas y Cyfreithwyr Damweiniau Modur (MASS)

Cymdeithas Diwydiant Beiciau Modur Prydain

Motor Insurers Bureau (MIB)

Motorplus Ltd

MPS

MSL Group

Mulderrigs Solicitors Ltd

MunichRE UK

NASUWT

National Accident Helpline

National Express UK

New Law

Cyymdeithas y Cyfreithwyr Newcastle upon Tyne

Next Gen Physiotherepy

NFU Mutual

NHSLA

Nicholls Brimble

NIG

North Bristol NHS Trust

O'Connors LLP

Oliver & Co Solicitors Ltd

On Hire Ltd

On Medical

O'Neill Morgan Solicitors

Oriel Chambers, Liverpool and Preston

Parklane Plowden Chambers

Pattinson & Brewer

PCS Union

Peter Kneale Solicitor Ltd

PIBA

PM Law

PR Scully & Co Solicitors

Premex

Premier Medical

QBE European Operations

RAC Motoring Services

Re: Liability (Oxford) Ltd

Real Law Solicitors Limited

Rehabilitation Working Party

Richard J Knaggs & Co

RoadPeace

Ross Aldridge Solicitors Limited

Rothera Sharp

Rowley Dickinson

Royal Mail

Royds Withy King LLP

RSA Group

RSW Medico Legal Ltd

Rushton Hinchy

Scott Rees & Co

Shacklocks LLP

Cymdeithas y Cyfreithwyr Sheffield and District

Simpson Millar LLP

Skyfire Insurance

Slater and Gordon Group

Smith Jones, SJ law group

Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol

South Herts CTC

Specter Partnership

Speed Medical

Spencers Solicitors

spinecare uk ltd

St Johns Buldings Barristers Chambers

Stagecoach Group plc

Stephensons Solicitors LLP

Stone Rowe Brewer LLp Solicitors

SX3 Claims Ltd

Taxisure Ltd

Temple Garden Chambers

The Integated Care Clinics

The Mindworks

Thomas Cook

Thompsons Solicitors

Thorneycroft Solicitors Ltd

TJL Solicitors

Trade Union Legal LLP (Trading as unionline)

Cyngres yr Undebau Llafur

Tranter Cleere

True Solicitors

Truth Legal Limited

TUI Group

Udrive Bolton

UK Association of Fee Paid Judges

UK Law Solicitors

Unison

Unite

University of Bristol Law School

University/NHS Trust

Usdaw union

Validus-IVC

Verisk Insurance Solutions

Vocational Rehabilitation Association

Wace Morgan Ltd Solicitors

Walkers Solicitors Ltd

Ward & Rider Solicitors

Wards Solicitors

Cymdeithas y Cyfreithwyr Warrington

Watsons Solicitors

Weightmans

Welsh Government

Williamsons Solicitors

Winn Solicitors

Zurich Insurance plc

ISBN 978-1-4741-4117-8